Cysylltydd Cymunedol

Yn y rôl hon byddwch yn meithrin perthynas â phobl, lleoedd a sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o strôc a'r Gymdeithas Strôc yn y gymuned. Trwy feithrin y perthnasoedd hyn, byddwch yn cyfrannu at wella profiad pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan strôc yn y mannau maen nhw'n byw a gweithio.

Beth fyddwch chi'n ei wneud?

- Darparu estyniad gwerthfawr i'n timau wedi'u lleoli mewn ardaloedd.
- Meithrin perthynas â phobl, lleoedd a sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o strôc a'r Gymdeithas Strôc.
- Ymgysylltu â'ch cymuned leol i gynrychioli'r Gymdeithas Strôc tra'n cyflwyno cyflwyniadau neu sgyrsiau (naill ai wyneb yn wyneb neu'n ddigidol), a mynd i ddigwyddiadau codi arian neu rannu eich profiad o strôc â phobl eraill.

Beth fyddwch chi'n ei gyflwyno i'r rôl?

Bydd gennych...

- Angerdd a brwdfrydedd dros godi ymwybyddiaeth o strôc.
- Gallu a pharodrwydd i rannu sut y gall pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan strôc gael at gymorth gan y Gymdeithas Strôc.
- Mwynhau siarad â phobl a chymunedau, naill ai'n un i un, neu gyflwyno i grwpiau.
- Awydd i ddangos ein gwerthoedd, a helpu i wella gofal a chymorth i oroeswyr strôc.
- Y gallu i deithio i leoliadau a digwyddiadau ar eich pen eich hun.
- Parodrwydd i ddefnyddio technoleg e.e. ZOOM a Microsoft Teams i ymgysylltu â phobl y tu allan i'ch ardal leol, a'n mewnrwyd a'n llwyfan dysgu i gael mynediad at adnoddau a hyfforddiant

Beth all y rôl ei gynnig i chi'n bersonol:

- Cymorth â dysgu sgiliau newydd
- Cyfarfod â phobl newydd, adeiladu rhwydwaith ac ymgysylltu â'ch cymuned leol

- Bydd cyfle i chi ddod at eich gilydd (naill ai wyneb yn wyneb/yn ddigidol) gyda **Chysylltwyr Cymunedol** eraill o'ch ardal i drafod blaenoriaethau a chyfleoedd lleol

- Fforymau digidol deufisol gyda **Chysylltwyr Cymunedol** o bob rhan o'r DU i rwydweithio a rhannu profiadau

Pwy fydd eich rhwydwaith o fewn y Gymdeithas Strôc?

- Grwpiau a sefydliadau cymunedol
- Ein tîm Codi Arian Rhanbarthol
- Ein tîm Effaith Ardal
- Ein tîm Cymunedau
- Gwirfoddolwyr eraill yn y rôl hon, yn genedlaethol ac yn lleol

Hyfforddiant ar gyfer y rôl hon:

Bydd gennych fynediad at **Learn**, sef ein system rheoli dysgu lle gallwch gymryd rhan mewn cyrsiau e-ddysgu a chyrsiau dan arweiniad hyfforddwyr i gefnogi'ch rôl.

- Mae bod yn **Gysylltydd Cymunedol** yn golygu cynyddu eich gwybodaeth a'ch ymwybyddiaeth o strôc, ei effeithiau a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu ar ôl strôc.

- Hyfforddiant gorfodol: GDPR, iechyd a diogelwch sylfaenol, gweithio ar eich pen eich hun, diogelu.

- Hefyd, pynciau eraill sy'n gysylltiedig â strôc y gallech fod â diddordeb ynddynt, neu'n teimlo eu bod yn berthnasol i'r gweithgareddau rydych chi'n eu cefnogi.

Ein gweledigaeth yw bod llai o strociau, ac i bobl sy'n cael eu heffeithio gan strôc gael yr help sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd gorau y gallant.

Ein pwrpas craidd yw bod yn llais dibynadwy goroeswyr strôc a'u teuluoedd. Rydym eisiau sbarduno canlyniadau gwell o ran atal strôc, triniaeth strôc a chymorth gydol oes i bawb sy'n cael eu heffeithio gan strôc.

Volunteer and make a difference.

Darganfyddwch fwy am strôc, beth rydym ni'n ei wneud a sut gallwch helpu: **stroke.org.uk** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Strôc: **0303 3033 100**.